**Statws** *This is the original version (as it was originally enacted).*

# ATODLEN 12

## TROSI TENANTIAETHAU A THRWYDDEDAU PRESENNOL SY'N BODOLI CYN I BENNOD 3 O RAN 10 DDOD I RYM

*Olyniaeth*

21 (1) Mae deiliad y contract o dan gontract wedi ei drosi i'w drin fel olynydd wrth gefn mewn perthynas â'r contract—

(a) os oedd y contract wedi ei drosi, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth o ddisgrifiad sydd yng ngholofn 1 o Dabl 7,

(b) os oedd, cyn y diwrnod penodedig, wedi ei freinio yn neiliad y contract o dan y ddarpariaeth sydd yng ngholofn 2 o'r Tabl hwnnw, ac

(c) os oedd deiliad y contract yn gymwys i olynu oherwydd y darpariaethau sydd yng ngholofn 3 o'r Tabl hwnnw.

TABL 7

| Y MATH O DENANTIAETH | Y DDARPARIAETH FREINIO | Y DARPARIAETHAU CYMHWYSO |
|---|---|---|
| Tenantiaeth ddiogel | Adran 89 o Ddeddf Tai 1985 (p. 68) | Adrannau 87(b) a 113(1)(b) o'r Ddeddf honno |
| Tenantiaeth ragarweiniol | Adran 133 o Ddeddf Tai 1996 (p. 52) | Adrannau 131(b) a 140(1)(b) o'r Ddeddf honno |
| Tenantiaeth isradd | Adran 143H o Ddeddf Tai 1996 | Adran 143P(1)(c) o'r Ddeddf honno |

(2) Mae deiliad y contract o dan gontract wedi ei drosi i'w drin fel olynydd wrth gefn mewn perthynas â'r contract—

(a) os oedd y contract, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth sicr, a

(b) os oedd deiliad y contract, cyn y diwrnod penodedig, wedi dod â hawl i'r denantiaeth sicr o dan baragraff 3 o Atodlen 1 i Ddeddf Rhenti 1977 (p. 42) (olyniaeth).

(3) Mae deiliad y contract o dan gontract wedi ei drosi i'w drin fel olynydd wrth gefn mewn perthynas â'r contract—

(a) os oedd y contract, yn union cyn y diwrnod penodedig, yn denantiaeth sicr,

(b) os oedd, cyn y diwrnod penodedig, wedi ei freinio yn neiliad y contract o dan adran 17 o Ddeddf Tai 1988 (p. 50) (olynu i denantiaeth sicr), ac

(c) os oedd y landlord o dan y contract, ar y diwrnod penodedig, yn landlord preifat.